WESP 09
Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg - y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi Darpariaeth Addysg Gymraeg | Welsh in Education Strategic Plans - the legislative framework that supports Welsh-Medium Education Provision
Ymateb gan Mudiad Meithrin | Response from Mudiad Meithrin

# Ymateb Mudiad Meithrin i Ymchwiliad Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'r Fframwaith Deddfwriaethol sy'n Cefnogi Darpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg


| | |
|---|---|
| **Enw:** | Angharad Morgan |
| **Sefydliad (lle bo'n berthnasol):** | Mudiad Meithrin |
| **Rôl:** | Rheolwr Polisi |
| **E-bost:** | |
| **Cyfeiriad:** | Mudiad Meithrin, Y Ganolfan Integredig, Boulevard St Brieuc, Aberystwyth. SY23 1PD. |


Mae Mudiad Meithrin yn gymdeithas wirfoddol genedlaethol o Gylchoedd Meithrin, cylchoedd Ti a Fi, gofal cofleidiol a meithrinfeydd dydd Cymraeg.  Ein nod yw creu siaradwyr Cymraeg newydd, ymgyrchu dros ofal ac addysg Gymraeg i bob plentyn, cefnogi ein haelodau a chynllunio'n strategol i ddatblygu gwasanaethau newydd.

Ers 1971 rydym wedi tyfu'n aruthrol.  Erbyn heddiw mae tua 1000 o Gylchoedd Meithrin, Cylchoedd Ti a Fi, grwpiau 'Cymraeg i Blant', sesiynau 'Clwb Cwtsh' a Meithrinfeydd dan faner y Mudiad Meithrin sydd yn darparu profiadau blynyddoedd cynnar i tua 22,000 o blant bob wythnos.

Rydyn ni wedi cymhwyso dros 3500 o unigolion yn uniongyrchol i'n gweithlu cyfrwng Cymraeg gyda chymwysterau Gofal Plant, a hynny drwy ein Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol a'r Cynllun Ysgolion Cam wrth Gam. Mae'r Mudiad yn ganolfan wedi ei hachredu a'i hadnabod gan WJEC a City and Guilds yn ogystal â CACHE ar gyfer darparu yr ystod lawn o gymwysterau ôl-14 ac ôl-16.

Hefyd, rydym yn gweithio'n agos iawn gyda rhieni er mwyn darparu cymorth a chyngor i'w galluogi i ddatblygu a chefnogi gwaith y cylchoedd yn y cartref, trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant neu ddechrau dysgu Cymraeg. Rydym yn elusen gofrestredig sy'n cyflogi dros 200 o bobl yn genedlaethol, gyda 2000 ychwanegol yn gweithio yn y Cylchoedd a'r meithrinfeydd. Cefnogir y cylchoedd gan rwydwaith cenedlaethol o staff proffesiynol sy'n eu cynghori ar amrediad o faterion er enghraifft cefnogaeth fusnes, cymwysterau a recriwtio staff, hybu arfer da, hyfforddiant staff a chyd-weithio ag Awdurdodau Lleol.

## Ymateb Mudiad Meithrin

## 1. Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bedwaredd Senedd argymhellion yn ei adroddiad ar 'Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg'. A yw'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi gwella ers hynny?

1.1. Mae Mudiad Meithrin yn teimlo bod y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi gwella ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Plant Pobl Ifanc ac Addysg yn Rhagfyr 2015. Nodwn fod yr Adolygiad Brys o'r CSGA i Fwrdd Cynghori CSGA Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2017 hefyd wedi cyfrannu at symud y fframwaith deddfwriaethol perthnasol ymlaen.

1.2. Mae ymestyn cyfnod gweithredu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i 10 mlynedd yn esiampl o welliant. Mae hyn yn galluogi cynllunio mwy ystyrlon ac yn galluogi'r gwahanol rhanddeiliaid i weithredu a mesur effaith eu gwaith ar lawr gwlad.

1.3. Rydym yn croesawu cynnwys targedau penodol ar gyfer y blynyddoedd cynnar fel rhan o'r CSGAu 2022-2032. Mae hyn yn rhoi ffocws penodol ar gyfer cynyddu nifer y plant 3 a 5 oed sydd yn derbyn addysg Gymraeg ac yn golygu fod mwy o bwysau ar gyd-gynllunio strategol rhwng partneriaid perthnasol e.e. Awdirdodau Lleol a Mudiad Meithrin.

1.4. Er hynny, rhaid nodi nad yw hi bob amser yn glir beth yw'r targedau a'r deilliannau meintiol sydd yn rhan o CSGAu 2022-2032 o edrych ar y darlun mawr yn genedlaethol.

1.5. Rydym wedi gweld gwelliannau mewn cyd-gynllunio darpariaethau mewn rhai awdurdodau lleol ers i Mudiad Meithrin gael ei henwi yn y Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg[1]. Mae hyn yn dangos newid diwylliannol mewn nifer o awdurdodau lleol.

1.6. Yr her i ni fel mudiad cenedlaethol yw'r diffyg eglurdeb ar y darlun mawr sy'n deillio o weithredu'r CSGAu. Er bod y 22 CSGA unigol yn galluogi cyd-ddatblygu a chyd-gynllunio ar lefel leol, byddai sefydlu grŵp rhanddeiliaid cenedlaethol gyda

[1] canllawiau-gynlluniau-strategol-cymraeg-addysg.pdf (llyw.cymru)

chynrychiolaeth ar draws nifer o sefydliadau megis Comisiynydd y Gymraeg, partneriaid Cwlwm, yr awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, Estyn ac AGC, Comisiynydd Plant yn hwyluso trafodaethau ar y darlun mawr a'r targedau ambarél genedlaethol.

1.7. Byddai grŵp rhanddeiliaid cenedlaethol yn ei gwneud yn haws i sefydliadau cenedlaethol fel y Mudiad Meithrin i fedru blaen gynllunio gan ddeall ble mae'r buddsoddiadau cyfalaf a refeniw yn digwydd ar draws Cymru.

## 2. I ba raddau y mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y canlyniadau a'r targedau a nodir yn Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg – Cymraeg 2050?

2.1. Un o nodau allweddol strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru yw creu system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus. Nodwn yr angen i sicrhau bod pob dysgwr ym mhob ysgol yng Nghymru yn cael y cyfle i feithrin sgiliau Cymraeg yn yr ysgol a defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau pob dydd.

2.2. Mae'r system addysg statudol a'r sector nas-cynhelir yn allweddol i wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac mae targedau'r Awdurdodau Lleol yn y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn greiddiol i hyn.

2.3. Ni allwn or-ddweud pwysigrwydd cyd-weithio gyda Mudiad Meithrin a mudiadau eraill Cwlwm er mwyn cynllunio i sicrhau darparu gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, o fewn cyrraedd hwylus i bob cymuned yng Nghymru, i wireddu'r nod o greu a chynyddu'r galw am addysg statudol cyfrwng Cymraeg yn ein holl gymunedau.

2.4. Gofal plant ac addysg gynnar yw'r cam cyntaf yn nhaith addysg pob plentyn. Byddai normaleiddio a phrif-ffrydio argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru yn ffordd o sicrhau'r cam cyntaf pwysig hyn. Bydd angen ystyriaeth benodol i sicrhau ehangu a chynyddu canran y llefydd ac argaeledd darpariaeth Cymraeg o fewn cynlluniau penodol (e.e. elfen gofal plant Dechrau'n Deg) i lefelau sydd yn cyd-fynd a'r targedau a osodwyd ar gyfer y nifer / % o blant sydd yn cael eu hasesu drwy

gyfrwng y Gymraeg ar gyfer deilliannau 1, 2 a 3 Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022 - 2032.

2.5. Nodwn yr angen i gryfhau ac ymestyn a chryfhau'r cynllun sabothol, ac annog defnydd cyrsiau Cymraeg Cynnar / Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn annog datblygiad sgiliau Cymraeg y staff presennol. Rhaid magu hyder y staff i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, nid yn unig cyflwyno elfennau o'r cwricwlwm neu wersi penodol drwy gyfrwng yr iaith. Mae angen sicrhau bod y cyfleoedd hyn ddim yn effeithio ar allu unigolion i gadw eu swyddi, a bod cyfleoedd penodol iddynt hyfforddi tra'n gweithio dros gyfnod o amser.

## 3. Sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i newidiadau i ganllawiau ar gategorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac a ydynt yn bodloni uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion dwy ffrwd?

3.1. Gan ei fod yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, a bod y cynlluniau hyn yn greiddiol i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru a amlinellir yn *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* bydd rhaid sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn croesgyfeirio'r categorïau ieithyddol newydd i'r dogfennau statudol hynny ac yn cyd-gynllunio.

3.2. Mae Mudiad Meithrin yn cydnabod bod categoreiddio ysgolion yn fater cymhleth, ac rydym yn croesawu'r ymdrech diweddar gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu un system gyson ar draws Cymru gyda chyhoeddiad y *Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg* yn 2021. Nodwyd gan y Gweinidog Addysg yr angen iddynt fod yn ganllawiau statudol, a byddai hynny yn rhoi sylfaen mwy cadarn i'r cynnwys. Er hynny, mae gennym bryder mai cyfundrefn anstatudol yw'r canllawiau categoreiddio hyn. Croesawn nod y polisi o gynyddu darpariaeth Gymraeg ysgolion Cymru, ac i hwyluso'r broses o symud i fyny'r categorïau ieithyddol. Heb gymhelliannau clir, adnoddau a chyfarwyddyd pendant, ni fydd y nod hon yn cael ei wireddu.

3.3. Nodwn bwysigrwydd cyd-weithio gyda'r awdurdodau lleol i sicrhau nad yw'r system o gategoreiddio ysgolion yn cael effaith andwyol ar y ffordd y maent yn creu'r galw

am addysg Gymraeg, yn enwedig wrth bontio ar ddechrau'r cyfnodau allweddol. Mae hyn yn agwedd greiddiol o gyd-weithio gydag awdurdodau lleol i gynyddu'r ddarpariaeth gofal ac addysg Gymraeg (nid dwyieithog) yn y sector nas cynhelir. Ni allwn or-ddweud pwysigrwydd cyd-weithio gyda Mudiad Meithrin a Cwlwm er mwyn cynllunio i sicrhau darparu gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, o fewn cyrraedd hwylus i bob cymuned yng Nghymru, i wireddu'r nod o greu a chynyddu'r galw am addysg statudol cyfrwng Cymraeg yn ein cymunedau.

3.4. Mae angen sicrhau bod y systemau ar gyfer gwneud newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas â chategorïau ieithyddol ysgolion gan awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol o dan Adran 42 y *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) (2013)* yn eglur. Dylid ystyried cynnig canllawiau syml i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol sydd yn amlygu ac yn esbonio sut y mae cyfrwng iaith addysg ysgolion yn cyfrannu a'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Dylid hefyd ystyried nodi sut y gall newid categori ieithyddol ysgol gefnogi neu yn tanseilio'r targedau y noder eisoes yn CSCA'r awdurdod lleol.

3.5. Mae perthynas waith rhwng Mudiad Meithrin a'r Awdurdodau Lleol ar lefel strategol a lefel swyddogion yn amrywio ar draws y wlad. Pan mae cyd-gynllunio strategol yn digwydd o ddechrau unrhyw ddatblygiad mewn addysg Gymraeg e.e. Ysgol cyfrwng Cymraeg newydd, mae'n galluogi ein cynllun Sefydlu a Symud i gydweithio i sicrhau bod gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael ar y safle er mwyn paratoi plant ar gyfer yr Ysgol trwy eu trochi yn y Gymraeg ac i gynnig gofal cofleidiol i blant dosbarth Meithrin. Mae hyn yn ymateb i ofynion rhieni sydd yn gweithio ac yn galluogi'r Ysgol Gymraeg i gystadlu gydag Ysgolion cyfrwng Saesneg yn yr ardal. Mae perthynas waith agos hefyd yn sicrhau ein bod ni yn ymwybodol o unrhyw newidiadau yn amserlen y cynllun ac yn gallu addasu ein cynlluniau ni i gyd-fynd gyda'r newidiadau.

## 4. Pa heriau a fydd yn codi o ran cynllunio a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cyn Bil Addysg Gymraeg arfaethedig?

4.1. Ni allwn or-ddweud pwysigrwydd sicrhau bod y disgrifiadau o'r allbynnau ieithyddol disgwyliedig ar gyfer y Gymraeg yn glir ac yn ddealladwy i'r holl randdeiliaid. Rhaid bod y disgrifiadau yn ei gwneud yn glir beth fyddai gallu Cymraeg disgwyliedig y plant

ar ddiwedd eu cyfnod yn ysgol neu'r lleoliad penodol. Mae hyn yn hollbwysig mewn ysgolion dwy ffrwd, ble mae angen sicrhau bod y rhieni yn deall beth yw'r gwahaniaethau ar gyfer y gallu hwn ar gyfer plant sydd yn derbyn eu haddysg yn y ddwy ffrwd. Nodwn hefyd yr angen i sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn deall y gwahaniaeth rhwng addysg drochi i blant sydd yn dod o aelwydydd ble na siaredir y Gymraeg, a dysgu Cymraeg mewn gwersi ffurfiol.

4.2. Cydnabyddwn bod patrymau darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog yng Nghymru yn amrywio o ardal i ardal, a bod nifer sylweddol o'r amrywiadau hyn yn adlewyrchu patrymau defnydd y Gymraeg yn y gymuned ehangach. Rhaid bod ein systemau gofal ac addysg yn ddigon hyblyg i allu adlewyrchu nodweddion ieithyddol unigryw cymunedau Cymru, serch hynny, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau cynllunio addysg ar sail dealltwriaeth glir a chyson o ddeilliannau ieithyddol y dysgwyr.

4.3. Rhaid bydd sicrhau bod yna ddisgrifiad clir a chyson o 'addysg drochi' ac 'addysg cyfrwng Cymraeg' yn cael ei ddefnyddio ar draws polisïau Llywodraeth Cymru, ac sy'n cael ei gyfathrebu gyda rhanddeiliaid mewn nifer o sectorau gan gynnwys addysg, iechyd a'r blynyddoedd cynnar yn y cyfnod cyn y Bil Addysg Gymraeg arfaethedig.

4.4. Bydd angen cynnal awdit sgiliau Cymraeg ar gyfer holl staff sydd yn gweithio ac yn cefnogi ysgolion a lleoliadau addysg a gofal blynyddoedd cynnar, nid yn unig athrawon. Dyma fydd yn rhoi cyfle i adnabod ble mae'r gallu i weithio yn y Gymraeg, a ble mae angen buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol er mwyn galluogi staff i wneud hyn.

4.5. Nid yw'r her recriwtio ymarferwyr i weithio yn y sector gofal ac addysg blynyddoedd cynnar yn un newydd. Mae sicrhau cyflenwad digonol o ymarferwyr sydd yn meddu ar y sgiliau proffesiynol angenrheidiol ynghyd â sgiliau Cymraeg o'r safon uchaf posib i'r gweithlu Gofal Plant, Blynyddoedd Cynnar a Gwaith Chwarae yn greiddiol i ddarpariaeth ddigonol o leoliadau a llefydd cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru, yn ogystal â'r gweithlu ysgolion angenrheidiol. Rhaid sicrhau cynllunio er mwyn peidio â cholli momentwm o'r groesffordd dyngedfennol hon.

4.6. Nodwn yr angen hefyd i sicrhau cyfleoedd priodol i fyfyrwyr ôl-16 sydd am weithio yn y sector gofal ac addysg i ddatblygu'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol ochr-yn-ochr ag astudio ar gyfer eu cymwysterau galwedigaethol. Un rhan o hyn yw sicrhau bod yna

gyfleoedd i unigolion ddilyn y cyrsiau galwedigaethol perthnasol trwy gyfrwng y Gymraeg, o fewn pellter rhesymol i'w cartref.

4.7. Er mwyn gwireddu hyn, byddai angen sicrhau bod yna gyfleoedd i unigolyn ddilyn cyrsiau galwedigaethol perthnasol ac ystyrlon trwy gyfrwng y Gymraeg, ar y cyd gyda chyfleoedd i aelodau presennol y gweithlu i ddatblygu ac i gryfhau eu sgiliau Cymraeg. Awgrymwn y dylid mynnu fod elfen asesiad llafar y cyrsiau galwedigaethol hyn yn digwydd yn Gymraeg er mwyn sicrhau bod gan aelodau newydd o'r gweithlu'r sgiliau sylfaenol angenrheidiol.

4.8. Mae Mudiad Meithrin yn barod i gynorthwyo ac i gefnogi strategaethau lleol a chenedlaethol yn y maes hwn. Mae Mudiad Meithrin ers 2004 yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ysgol a myfyrwyr eraill i ymgymryd â chymwysterau galwedigaethol sy'n eu galluogi i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg ym maes gofal plant ac addysg gynnar. Rydym yn cyd-weithio gydag ysgolion a cholegau addysg bellach i ddarparu cyrsiau ar gyfer myfyrwyr 14 - 19 oed; darparwn gyfleoedd brentisiaeth drwy ein Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol, ac mae sawl model gwahanol o gydweithio yn bodoli gyda darparwyr a sefydliadau eraill er mwyn cynnig cyfleoedd i'r gweithlu a staff y Mudiad ei hun er mwyn cymhwyso, uwchsgilio a dysgu.

4.9. Mae angen sicrhau buddsoddiad er mwyn medru cynyddu'r niferoedd sydd yn cymhwyso ar lefel 3 ac ar lefel 5. Er mwyn goresgyn yr heriau recriwtio yn y sector, mae angen i ni ddatblygu a gweithredu cynllun hyfforddi cenedlaethol fydd yn sicrhau recriwtio niferoedd sylweddol o ymarferwyr i'r gweithlu dros y blynyddoedd nesaf.

4.10. Mewn egwyddor, cytunwn fod angen parhau i feithrin a datblygu perthynas gwaith cryf rhwng Mudiad Meithrin a'r Awdurdodau Lleol. Dyma fydd y ffordd orau i alluogi cynllunio strategol a sicrhau datblygu darpariaethau cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg sydd yn lleol, ac mewn cyrraedd hwylus i bob plentyn a'i deulu.

4.11. Yn atodol, nodwn yr angen i sicrhau bod y sector Gofal ac Addysg Blynyddoedd Cynnar a Gwaith Chwarae yn ei ehangder yn cael ei gynnwys mewn unrhyw drafodaethau am ddatblygu darpariaethau lleol. Bydd hyn yn sicrhau bod cynlluniau datblygu'r sefydliadau unigol yn cyd-fynd gyda'r weledigaeth leol a chenedlaethol yn y tymor hir.

4.12. Yn ategol, nodwn yr angen i gynyddu nifer y bobl sy'n gallu gweithio drwy'r Gymraeg mewn nifer o feysydd a gwasanaethau arbenigol. Cynigiwn yr angen i

flaenoriaethu hyn, er mwyn medru darparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg rhagweithiol ar draws y sector cyhoeddus ehangach ac mewn busnesau eraill. Nodwn yma'r angen i sicrhau datblygu sgiliau Cymraeg staff presennol nifer o wasanaethau cefnogol, megis Therapyddion Iaith a Lleferydd, Ymwelwyr Iechyd a Gweithwyr Plant ac Ieuenctid yn gydamserol ag unrhyw gynlluniau i gynyddu capasiti a darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar hyd y gwahanol gyfnodau addysg.

4.13. Bydd angen sicrhau bod y Bil Addysg Gymraeg arfaethedig yn adeiladu ar gynnwys y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru).

4.14. Rhaid hefyd ystyried effaith datblygiadau penodol sydd yn digwydd yn sgil y cytundeb cyd-weithio rhwng y Blaid Lafur a Plaid Cymru megis ehangu cynllun Dechrau'n Deg i bob plentyn 2 oed yng Nghymru. Mae angen sicrhau alinio'r datblygiadau hyn gyda datblygiadau eraill y CSGAu yn lleol ac yn genedlaethol.

4.15. Mae angen eglurdeb o ran beth fydd statws y CSGAu presennol o fewn cyfundrefn y Bil Addysg Gymraeg arfaethedig.

4.16. A fydd targedau *Cymraeg 2050* yn arwain targedau polisïau addysg yng Nghymru fel targedau statudol? Er bod hwn yn gwestiwn i Lywodraeth Cymru, fe fyddai angen buddsoddiad cyfalaf a refeniw sylweddol er mwyn ei wireddu'n llawn. I ddatblygu a sefydlu darpariaethau newydd, a datblygu gyrfaoedd yr holl ymarferwyr yn y maes.

4.17. Mae angen ystyried datblygu a gweithredu cynlluniau arloesol sydd yn hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn y gymuned, megis grantiau cymunedol diweddar Cyngor Sir Casnewydd oedd yn cynnig cyfle i deuluoedd flasu darpariaeth cyfrwng Cymraeg am ddim drwy system talebau. Bu'n gynllun llwyddiannus, serch hynny, mae angen ystyried anghenion ariannol y math yma o ymgyrch er mwyn medru ei weithredu fel cynllun cenedlaethol.